Ionawr 2025

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata

## Pecyn Swydd

# Croeso!



Ni yw Sefydliad Cymunedol Cymru ac rydym yma i ysbrydoli pobl i roi, helpu cymunedau Cymreig i ffynnu a newid bywydau gyda'n gilydd.

Rydym wedi rhoi mwy na £40m i bobl a grwpiau cymunedol ledled Cymru ers 1999 – stori o gryn lwyddiant!

Nawr rydym yn chwilio am Bennaeth Cyfathrebu a Marchnata dawnus i ymuno â'n tîm gwych - ac i'n helpu i newid mwy o fywydau ledled Cymru.

Rydym wedi tyfu dros y 25 mlynedd diwethaf ac yn awr mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer datblygiad pellach, drwy annog mwy o ddyngarwch a rhoi yng Nghymru, fel y gallwn gryfhau ymhellach y gefnogaeth a roddwn i gymunedau lleol ac elusennau.

Y llynedd dyfarnwyd £2.3m mewn cyllid, i 571 o grwpiau ac unigolion. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn derbyn incwm o'n cronfa waddol, sydd bellach yn gyfanswm o £24m, a hefyd drwy ddarparu gwasanaethau rhaglenni grant ledled Cymru.

Dyma'r amser perffaith i ymuno â ni.

Mae'r elusen yn tyfu yn ei chyrhaeddiad a'i effaith. Ynghyd â'n partneriaid mewn sefydliadau cymunedol ar draws y DU, ni yw'r pedwerydd cyllidwr elusennol mwyaf.

Rydym newydd gwblhau blwyddyn o ddathlu ein pen-blwydd yn 25, gyda digwyddiadau yng Nghaerdydd, Wrecsam a Llundain a gwobrau dyngarwch yn cael eu cyflwyno i sêr Hollywood Ryan Reynolds a Rob McElhenney, sylfaenydd Redrow Steve Morgan, yr actor Michael Sheen a Henry a Diane Engelhardt, a sefydlodd Sefydliad Moondance.

Ac mae gennym ni bartneriaethau ariannu newydd ar waith gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality, People's Postcode Lottery ac eraill sy'n ein helpu i gyrraedd mwy o gymunedau nag erioed yng Nghymru.

Mae ymchwil yn dangos rhagolygon twf cryf mewn rhoi dyngarol. Bydd ein gwaith yn tyfu, gan greu cyllid cynaliadwy ar gyfer cymunedau heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ond mae gennym ni fwy o waith i'w wneud i rannu ein stori yng Nghymru, i estyn allan a chysylltu â mwy o gefnogwyr posibl ac i ddangos yn well yr effaith yr ydym yn ei chael ar gymunedau lleol.

Yn 2025 gallwn edrych ymlaen at adeiladu tuag at strategaeth 5 mlynedd newydd o dan ein cadeirydd newydd Judi Rhys, lle bydd cyfathrebu yn chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i dyfu a chryfhau ein cysylltiadau. Mae gennym hefyd bartneriaeth newydd gyda GlobalWelsh sy'n ein helpu i estyn allan at y Cymry alltud.

Mae'r swydd hon yn berffaith ar gyfer rhywun sy'n angerddol am wneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru ac rhywun sy'n ffynnu yn gweithio'n strategol ac yn weithredol.

Yma yn Sefydliad Cymunedol Cymru, rydym yn deall pwysigrwydd cyfathrebu a marchnata ac mae'n rhan annatod o'r ffordd ni yn gweithio.

Bydd y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata yn gweithio ar lefel uwch yn y sefydliad ac yn allanol gyda'n partneriaid. Byddwch yn gweithio gyda phobl wych - gan gynnwys ein bwrdd anhygoel o Ymddiriedolwyr - ac yn elwa ar gyfleoedd datblygu gwych.

Rydym yn sefydliad dwyieithog sy'n gweithio ar draws Cymru gyfan, felly byddai'r gallu i weithio'n ddwyieithog yn fantais wirioneddol.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr o leiafrifoedd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Rydym eisiau bod mor hygyrch â phosibl ac mae croeso i chi gysylltu â mi i drafod y rôl ac unrhyw ofynion hygyrchedd. E-bostiwch fi ar richard@communityfoundationwales.org.uk i drefnu galwad.

Byddwn yn dilyn proses recriwtio deg ac agored sy'n dileu'r rhwystrau i benodi staff dawnus o gefndiroedd a chymunedau amrywiol drwy ddileu unrhyw ddata o'r broses llunio rhestr fer a allai nodi ymgeisydd.

Mae ein casgliad data cydraddoldeb yn ddienw a dim ond er mwyn i ni asesu ein cyrhaeddiad yn hytrach na llywio'r broses recriwtio y caiff ei ddefnyddio. Rydym yn ymdrechu i gael cynrychiolaeth amrywiol ar y panel cyfweld, i helpu i wneud ymgeiswyr yn gyfforddus.

Mae gennym ffocws cryf ar les tîm ac ar ddatblygu sgiliau personol a gwaith. Mae digonedd o gyfleoedd i ddysgu, ac i gwrdd â phobl ddiddorol sy'n gwneud rhai pethau gwych ledled Cymru, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'n Hymddiriedolwyr.

Trwy'r pecyn hwn, rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau dysgu ychydig amdanom ni a'r gwaith pwysig sy'n digwydd yma a'ch bod yn teimlo mai ni yw'r math o sefydliad yr hoffech fod yn rhan ohono.

Diolch yn fawr.

Richard Williams

**Richard Williams**
**Prif Weithredwr**

# Ein Cefndir

Rydyn ni'n ysbrydoli pobl i roi, helpu cymunedau yng Nghymru i ffynnu a newid bywydau gyda'n gilydd.

Dros 25 mlynedd, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi bod yn cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gyda chyllid i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Gan weithio gyda'n cefnogwyr a'n partneriaid hael, rydym yn canfod ac yn ariannu prosiectau lleol sy'n helpu i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Mae ein partneriaethau yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned sydd, yn ei dro, yn ein helpu i lunio cronfeydd a chynghori ein rhoddwyr i sicrhau ein bod yn rhoi mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Rydym yn cofnodi ac yn rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'n gwaith dyngarol a'n gwaith dyrannu grantiau er mwyn cyfrannu at ein datblygiad parhaus a dylanwadu ar eraill mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth.

Mae dros 42,000 o grwpiau cymunedol ac elusennau yng Nghymru yn gweithio i wella a datblygu eu cymunedau, gan ddefnyddio eu mentergarwch i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r grwpiau a'r elusennau hyn yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl yn eu cymuned ac yn gwybod beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Mae'r gwaith hanfodol hwn yn aml yn cael ei wneud ar sail cyllideb fach neu wirfoddol, felly rydyn ni'n canolbwyntio ar ddod o hyd i'r prosiectau a'r sefydliadau gwych hyn, gan ddeall beth maen nhw'n ceisio'i gyflawni a'u cefnogi i wneud hynny.








# Manteision gweithio gyda ni:

- **Eich llesiant:** Trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleon hyfforddiant a datblygu yn ogystal a dau ddiwrnod y flwyddyn i wirfoddoli yn eich cymuned leol.
- **Eich iechyd:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer gweithio rhan amser) a gwyliau banc yn ogystal â 3 diwrnod o wyliau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gwyliau ychwanegol ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor, cynllun beicio i'r gwaith, prawf llygaid am ddim, sesiynau llesiant misol, mynediad at ap Health Assured.
- **I'ch diogelwch ariannol:** Cynllun pensiwn cystadleuol, adolygiad cyflog blynyddol, tâl mamolaeth uwch, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu, rhaglen cymorth i weithwyr sy'n ymestyn i deulu.

# Ein Gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae ein gwerthoedd wedi deillio o'n tîm, yn siapio sut rydyn ni'n gweithio ac wedi eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

**Rydym yn bartneriaid da**

- Rydyn ni'n parchu ac yn gwerthfawrogi ein partneriaid, boed hwy yn rhan o'n staff a'n tîm ymddiriedolwyr, rhoddwyr, cefnogwyr a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.
- Rydym yn deall bod partneriaeth yn ein gwneud yn gryfach ac yn ein helpu i gyflawni mwy.
- Rydyn ni'n gwrando ac yn defnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwych a sicrhau canlyniadau.

**Mae'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn bwysig i ni**

- Rydyn ni'n gynnes, yn ofalgar ac yn ystyriol.
- Rydyn ni'n gweithredu'n ddiffuant.
- Rydym yn gwneud ein gorau glas dros bobl yng Nghymru.

**Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth**

- Yr ydym wedi ymrwymo i wella bywydau yng Nghymru.
- Rydyn ni'n rhoi cynnig ar bethau newydd, rydyn ni'n datrys problemau ac rydyn ni'n dysgu.
- Yr ydym yn rhagweithiol ac yn uchelgeisiol.





# Sut le i weithio ydi CFW?



Mae gweithio i CFW yn brofiad gwerth chweil, mae'n amgylchedd tîm cefnogol sy'n frwd iawn dros helpu cymunedau i ffynnu. Mae cydbwysedd da o waith a hwyl i'w gael bob amser, sy'n fantais wirioneddol.

**Ceri Thomas, Swyddog Grantiau**



Rwy'n hapus iawn yn gweithio yn CFW. Rydan ni yn canolbwyntio ar bobl - ein cleientiaid a'n staff. Mae CFW yn gyflogwr sensitif iawn ac yn addasu i'r amgylchedd gwaith newidiol sydd wedi bod yn esblygu, yn enwedig ers y pandemig, gan gydbwyso hyblygrwydd staff yn berffaith ag anghenion busnes.

**Carol Doyle, Cynorthwyydd Cyllid**



Mae CFW yn lle gwych i weithio ynddo, mae'n amgylchedd hamddenol a chyfeillgar ond gyda lefel uchel o broffesiynoldeb. Mae'r agwedd tuag at staff yn ofalgar iawn ac mae lles yn flaenoriaeth allweddol. Yn gyfnewid am hynny, mae'r staff yn rhoi o'u hamser i gyflawni amcanion CFW. Mae cyfathrebu'n agored ac yn onest ar bob lefel, sy'n helpu i greu tîm cryf sy'n ymddiried yn ei gilydd.

**Smitha Coughlan, Pennaeth Cyllid**

Rydw i wedi gweithio mewn sefydliadau llawer mwy o’r blaen, a beth wnaeth fy nharo pan ddechreuais i weithio gyda CFW oedd pa mor effeithlon a chadarnhaol oedd pawb yn gweithio gyda’i gilydd i ddod o hyd i atebion i broblemau ac i ddatrys heriau.



Mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol os oes rhywbeth rydych chi eisiau adeiladu arno, ac mae pawb yn cael ei annog i symud ymlaen yn eu rôl. Mae hyblygrwydd yn allweddol yn CFW – os oes angen amser arnoch i fynd i apwyntiad meddyg, gweld drama ysgol eich plentyn neu fynd â’r car am ei MOT, nid yw byth yn broblem ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni eich gwaith, ac rwy’n gwerthfawrogi hynny’n fawr.

**Katy Hales, Cyfarwyddwr Rhoi Dyngarol**







# Gwybodaeth am y rôl

Mae’r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata yn rôl hollbwysig sy’n cefnogi twf Sefydliad Cymunedol Cymru drwy roi ein strategaeth marchnata a chyfathrebu ar waith.

Mae'r rôl yn siapio sut rydym yn rhannu straeon ac yn cyfathrebu am yr elusen, gan ein helpu i adeiladu cefnogaeth ac ymestyn ein heffaith gyda chynulleidfaoedd allweddol.

Byddwch yn helpu i drefnu digwyddiadau gyda'n rhanddeiliaid a fydd yn ein helpu i gysylltu ac adeiladu ein sylfaen cefnogwyr.


Mae'r swydd hon yn gofyn am rywun sy'n awyddus i gymryd cyfrifoldeb ac sy'n gallu defnyddio eu sgiliau dylanwadu. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn mwynhau amrywiaeth - does dim dau ddiwrnod yr un fath yma - a bod yn hunan-ddechreuwr gyda sgiliau trefnu rhagorol sydd ag angerdd am gael effaith gadarnhaol ar fywydau Cymru.

Yn ddelfrydol byddwch yn gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ein helpu i rannu straeon a chyfathrebu â chefnogwyr ar draws Cymru gyfan.












# Disgrifiad swydd - Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata

**Oriau gwaith:** 37 awr yr wythnos.
Bydd angen rhywfaint o waith gyda'r nos, ar benwythnosau ac aros dros nos o bryd i'w gilydd. Rydym yn hapus i ystyried wythnos waith lai ar gyfer yr ymgeisydd cywir.

**Cyflog:** £40,000 (Cyfwerth ag amser llawn)

**Atebol i:** Prif Weithredwr

**Lleoliad:** Gweithio o gartref a'r swyddfa yng Nghaerdydd (yn nodweddiadol bydd 1 i 2 ddiwrnod yr wythnos yn y swyddfa)

**Contract:** Llawn amser a pharhaol.

**Buddiannau:** 25 diwrnod o wyliau y flwyddyn pro rata, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus, ynghyd â thri diwrnod ychwanegol o wyliau dros gyfnod y Nadolig, diwrnodau gwyliau gwasanaeth hir ychwanegol, pensiwn cyfrannol o 5%, sesiynau llesiant misol, cynllun beicio i'r gwaith.

## Tasgau a chyfrifoldebau allweddol

### Arweinyddiaeth

- Darparu arweinyddiaeth fel rhan o'r Uwch Dîm Rheoli.
- Cefnogi Ymddiriedolwyr i ddatblygu a thyfu effaith y Sefydliad Cymunedol.
- Cefnogi datblygiad a gweithrediad y cynllun busnes.
- Arwain a chefnogi prosiectau a thasgau fel sy'n ofynnol gan y Prif Weithredwr, yn unol â graddfa a natur gyffredinol y swydd.

### Arwain a darparu cyfathrebiadau strategol Sefydliad Cymunedol Cymru

- Datblygu a chyflawni strategaeth gyfathrebu a marchnata i wella effaith Sefydliad Cymunedol Cymru a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes.
- Cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu strategol, creadigol sy'n cael eu gyrru gan ddata sy'n dangos ein heffaith, yn gwella ein llais ac yn dylanwadu ar ymddygiad rhoddwyr/grantî.

### Creu cynnwys a rheoli cyfryngau

- Sicrhau bod Sefydliad Cymunedol Cymru yn gallu rhannu ei stori â'i gynulleidfaoedd allweddol, drwy gynhyrchu cynnwys deniadol ac effeithiol.
- Arwain cysylltiadau cyfryngol a chreu cyfleoedd yn y cyfryngau, gan gael straeon am ein gwaith a'n llwyddiannau o flaen y bobl gywir.
- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, gan sicrhau bod staff perthnasol ar gael ac yn cael eu briffio ar gyfer cyfweliadau ac ymddangosiadau.

### Rheoli a datblygu brand Sefydliad Cymunedol Cymru

- Sicrhau bod ein brand yn cael ei reoli yn unol â'n gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd.
- Cefnogi datblygiad parhaus ein brand a gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer ei weithrediad ar draws pob sianel ac allbwn.

# Sgiliau a Phrofiad Allweddol

## Hanfodol

### Cymwysterau a phrofiad

- Profiad o weithio mewn rôl cyfathrebu uwch yn y trydydd sector.
- Profiad o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgareddau ac ymgyrchoedd cyfathrebu creadigol.
- Profiad o reoli a datblygu brand.
- Gwybodaeth a phrofiad o reoli amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys monitro a gwerthuso.
- Profiad o gysylltiadau cyfryngau traddodiadol; ysgrifennu a gwerthu datganiadau i'r wasg, creu perthynas â newyddiadurwyr a gwerthuso sylw yn y cyfryngau.
- Profiad o ddefnyddio Systemau Rheoli Cynnwys e.e. WordPress
- Profiad o reoli cyflenwyr ac asiantaethau allanol.

### Sgiliau

- Y gallu i ysgrifennu copi a golygu copi i safon uchel.
- Menter a chreadigrwydd i ddatblygu ffyrdd difyr o adrodd straeon a rhyngweithio â chynulleidfaoedd.
- Y gallu i flaenoriaethu gwaith er mwyn cwrdd â therfynau amser cystadleuol.
- Cyfathrebwr naturiol gyda sgiliau ysgrifenedig, llafar a rhyngbersonol rhagorol.
- Y gallu i drafod, perswadio a dylanwadu ar bobl ar bob lefel.
- Sgiliau meddwl strategol gyda'r gallu i nodi cyfleoedd newydd.

### Rhinweddau

- Person-pobl ag agwedd gadarnhaol sy'n cyflwyno'i hun yn broffesiynol ac yn hyderus.
- Person uchel ei gymhelliant sy'n cymryd menter ac yn rhedeg gyda syniadau.
- Y gallu i adrodd straeon cymhellol gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau a chyfryngau.
- Chwaraewr tîm hyblyg.

## Dymunol

- Y gallu i weithio yn y Gymraeg. Rydym yn sefydliad dwyieithog a byddai'r gallu i ysgrifennu a siarad Cymraeg yn fantais gref ar gyfer y rôl hon.
- Profiad o ddefnyddio Adobe Creative Cloud.
- Profiad o ddefnyddio llwyfannau dylunio fel Canva i gynhyrchu asedau digidol.
- Sgiliau golygu fideo sylfaenol gan ddefnyddio apiau fel CapCut.
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd e-gylchlythyrau fel Mailchimp, neu gyfwerth.

# Sut i wneud cais

Cyflwynwch CV ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n amlygu pam yr hoffech weithio yn Sefydliad Cymunedol Cymru a sut y bydd eich profiad a'ch arbenigedd yn ychwanegu gwerth at ein gwaith, gan helpu i gyflawni ein huchelgeisiau. Ni ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn fwy na 2 ochr A4 a'i atodi fel dogfen Word neu PDF ar wahân.

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, ynghyd â ffurflen monitro cyfle cyfartal wedi'i chwblhau, at Amelia Lee (yn ein partner recriwtio Charity People) gyda'r llinell pwnc 'Cais am rôl Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata.'

**Amelia Lee, Cyfarwyddwr Rhanbarthol: amelia@charitypeople.co.uk**

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, rydym am eich gwneud yn gyfforddus drwy:

- gynnig y cyfle i siarad ag aelod o'r tîm cyn cyfweliad i sgwrsio am y Sefydliad, ein gwaith cyfathrebu a marchnata a sut brofiad yw gweithio yma, i'ch helpu i ddod i'n hadnabod yn well.
- ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu unrhyw ofynion mynediad sydd gennych, a rhoi unrhyw ofynion angenrheidiol ar waith o fewn amser da.

## Dyddiadau a chamau allweddol:

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** - Ionawr 31, 2025
- **Rhestr Fer** - Wythnos yn dechrau Chwefror 3. Sylwch mai dim ond ymgeiswyr llwyddiannus y cysylltir â nhw
- **Cam cyntaf** - Cyfweliad cychwynnol (trwy Microsoft Teams) - Chwefror 13 a 14
- **Ail gam** - Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dod ymlaen i Ddiwrnod Cyfweld yn ein swyddfa yng Nghaerdydd - Chwefror 24

# Pob lwc gyda'ch cais!